



**Comisiynydd
Plant Cymru**

Children's
Commissioner
for **Wales**

Comisiynydd Plant Cymru: Adroddiad Blynyddol Chwythu'r Chwiban 2023 - 2024

12^{eg} Tachwedd 2024

Cyflwyniad

Mae Comisiynydd Plant Cymru yn bodloni'r diffiniad o 'berson rhagnodedig' o dan Ddeddf Datgelu er Budd y Cyhoedd 1998. Mae'r Ddeddf hon yn amddiffyn cyflogeion sy'n trosglwyddo gwybodaeth ynghylch camymddwyn o dan rai amgylchiadau. Gall unigolion sy'n dymuno datgelu camarfer gysylltu â'r Comisiynydd Plant am faterion sy'n ymwneud â hawliau a lles, a materion sy'n effeithio ar blant, pobl ifanc a'r rhai sy'n gofalu amdanynt yng Nghymru.

Cwblhawyd yr adroddiad hwn yn unol â gofynion cyfreithiol 'Rheoliadau Personau Rhagnodedig (Adroddiadau ynghylch Datgelu Gwybodaeth) 2017'. Mae'r rheoliadau hyn yn nodi'r gofynion adrodd ar gyfer sefydliadau ac unigolion sy'n Bersonau Rhagnodedig ar gyfer Datgelu Camarfer. Glynwyd hefyd at ganllawiau Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y Deyrnas Unedig, *Whistleblowing for Prescribed Persons* (2017), wrth ddrafftio'r adroddiad blynyddol hwn.

Ein pwerau a'n blaenoriaethau

Cymru oedd y wlad gyntaf yn y Deyrnas Unedig i sefydlu comisiynydd plant annibynnol, yn 2001. Deilydd presennol y swydd yw Rocio Cifuentes MBE, a ddaeth i'r swydd ym mis Ebrill 2022, ac a fydd yn gwasanaethu yn y swydd am gyfnod o 7 mlynedd. Ei phrif nod yw diogelu a hybu hawliau a lles plant.

Mae pwerau statudol y Comisiynydd yn deillio o Ddeddf Safonau Gofal 2000 (fel y'u newidiwyd gan Ddeddf Comisiynydd Plant Cymru 2001) a Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru 2001. Ceir rhagor o fanylion am bwerau statudol y Comisiynydd [yma](#).

Mae'r Comisiynydd a'i thîm wedi bod yn gweithio'n galed i adolygu a mireinio'r swyddogaeth Gyngori yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, er mwyn datblygu ymhellach Dîm Cyngor a Chymorth Comisiynydd Plant Cymru, gan sicrhau bod y gwasanaeth yn gweithredu fel ffynhonnell cyngor, cefnogaeth a gwybodaeth cywir ac amserol i blant a phobl ifanc yng Nghymru (a'r rhai sy'n gofalu amdanynt) sy'n teimlo eu bod wedi cael eu trin yn annheg. O dan ein strategaeth 3-blynedd, mae gennym ni bedwar maes blaenoriaeth strategol: iechyd meddwl, tlodi plant, addysg ac anghenion dysgu ychwanegol, a chydraddoldeb.



Datgeliadau camarfer a ddaeth i law rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024 a'r camau a gymerwyd

Yn ystod y cyfnod cynhwysol o 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024, bu Comisiynydd Plant Cymru yn ymdrin â'r canlynol:

Nifer yr achosion a ddaeth i law y barnwyd nad oeddent yn ddatgeliadau cymwys	1
Nifer yr achosion y rhoddwyd sylw iddynt fel datgeliadau cymwys a wnaed gan weithwyr	4
Nifer y datgeliadau cymwys lle penderfynodd Comisiynydd Plant Cymru gymryd camau pellach	3
Nifer y datgeliadau cymwys a gyfeiriwyd ymlaen at gyrff eraill oedd mewn sefyllfa well i fedru ymchwilio i'r pryderon; oedd eisoes yn derbyn sylw gan berson rhagnodedig arall; neu oedd yn derbyn sylw trwy brosesau mewnol priodol	1

Crynodeb o'r mathau o gamau a gymerwyd gan y person rhagnodedig yng nghyswllt datgeliadau gwybodaeth cymwys.

Mewn perthynas â'r datgeliadau cymwys a ddaeth i law, roedd dau o'r achosion datgelu camarfer yn ymwneud â materion ymarfer mewn awdurdod lleol. Mewn ymateb, daeth ein swyddfa i gysylltiad â'r cyrff statudol perthnasol yn brydlon i roi sylw i'r pryderon a godwyd. Sicrhodd y dull rhagweithiol hwn fod materion yn destun ymchwiliad trylwyr, a bod cyfrinachedd y sawl a wnaeth y datgeliad ac unrhyw ymholiadau parhaus yn cael eu diogelu. Nid ydym wedi cynnwys manylion penodol a allai olygu bod modd adnabod y sawl a wnaeth y datgeliad na thestun y datgeliadau, er mwyn cynnal integriti'r ymchwiliad a'n hymrwymiad i gyfrinachedd. Roedd y llall yn ymwneud ag ymarfer unigol, ac fe wnaethon ni godi'r mater gyda'r awdurdod lleol perthnasol, a gytunodd i ymchwilio. Eto, parchwyd cyfrinachedd y sawl a wnaeth y datgeliad.



Dysgu o'r datgeliadau

Mae'r profiadau a'r dystiolaeth a gasglwyd gan wasanaeth Ymchwiliadau a Chyngor y Comisiynydd, gan gynnwys y datgeliadau a ddaeth i law, yn llywio ein cynlluniau gwaith blynyddol a strategol yn sylweddol. Maent yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar feysydd sy'n teilyngu archwilio pellach.

Rhoddwyd blaenoriaeth i sicrhau bod arferion cyfredol awdurdodau lleol mor gadarn â phosibl i ddiogelu plant a phobl ifanc yn effeithiol. Mae'r materion a godwyd gyda ni yn cael eu cymryd i ystyriaeth wrth gynllunio ein mentrau dylanwadu ac ymgysylltu gyda chyreff cyhoeddus ar draws Cymru, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae'r dull cydweithredol hwn yn ategu ein hymrwymiad i wella trefniadau diogelu ehangach, ac yn ein galluogi i graffu'n fwy trylwyr ar arferion diogelu cenedlaethol.

Ymhellach, mae'r datgeliadau wedi'n sbarduno i fyfyrion ar ein harferion ein hunain, a arweiniodd at ymrwymiad i sicrhau cyfarfodydd wyneb yn wyneb lle bynnag mae modd. Nod y newid hwn yw meithrin deilliannau mwy adeiladol (ac mae hynny wedi digwydd) yn ein gwaith ymgysylltu a'n trafodaethau.

Mae'r datgeliadau hefyd yn gwella gallu'r Comisiynydd i gyflawni swyddogaethau statudol, yn arbennig y pŵer i gyflwyno sylwadau i Lywodraeth Cymru ynghylch materion sy'n effeithio ar hawliau a lles plant. Maen nhw'n golygu bod modd adolygu a monitro effeithiolrwydd trefniadau ar gyfer cwynion, datgelu camarfer ac eiriolaeth mewn cyrff cyhoeddus, yn ogystal ag archwilio achosion ac asesu'r effaith ar blant yn sgîl swyddogaethau neu swyddogaethau arfaethedig cyrff cyhoeddus a ddiffiniwyd, gan gynnwys Llywodraeth Cymru.

.

